

CODI LLAIS O GAEL CODIAD CYFLOG

TAL Y CYNGOR A'R YSGOL 2023

PARATOI AR GYFER Y BLEIDAIS

Mae UNSAIN wedi bod yn ymgyrchu dros godiad cyflog teilwng i weithwyr cyngor a staff ysgolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fe wnaethom alw am godiad cyflog o 2% yn uwch na'r chwyddiant (ar sail rhagolwg blynyddol y Trysorlys ar gyfer y Mynegai Prisiau Manwerthu yn 2023, byddai hyn yn 12.7%). Fodd bynnag, mae cyflogwyr llywodraeth leol wedi ymateb drwy gynnig cynnydd cyfradd safonol o £1,925. Mewn argyfwng costau byw, dydy hyn ddim yn ddigon da.

O ganlyniad, mae UNSAIN yn cynnal pleidlais ar aelodau sy'n gweithio mewn cynghorau ac ysgolion i ofyn a ydych yn dymuno gweithredu'n ddiwydiannol dros gyflogau. Dim ond drwy weithredu y byddwn yn anfon neges glir at gyflogwyr i roi gwybod iddyn nhw eich bod angen codiad cyflog gwell.

Mae angen i bob aelod cymwys bleidleisio yn y bleidlais sydd i ddod. Gallwn ni ond cymryd camau gweithredu diwydiannol cyfreithlon os yw o leiaf 50% o aelodau'n dychwelyd eu papurau pleidleisio atom.

Felly, byddwch yn barod i streicio nawr!

Dyma 3 enghraifft o bethau syml a hawdd y gallwch chi eu gwneud:

► **Cael eich cydweithwyr i gymryd rhan**

Siaradwch â'ch cydweithwyr am y mater ac annog unrhyw gydweithwyr newydd i ddod yn aelod o UNSAIN – dim ond 5 munud mae'n ei gymryd i ymuno. Ymunwch yma: <https://join.unison.org.uk>

► **Sicrhau bod eich manylion yn gyfredol**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn diweddarau eich manylion cyswllt – gallwch weld pa fanylion sydd gennym drwy ddefnyddio MyUNISON www.unison.org.uk/my-unison

► **Rhannu'r neges ar gyfryngau cymdeithasol**

Gallwch godi ymwybyddiaeth o'r mater ac annog eich cydweithwyr, eich ffrindiau a'ch teulu i gymryd rhan drwy rannu eich cefnogaeth gan ddefnyddio'r hashnod [#payup2023](https://twitter.com/payup2023)

► **Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgyrch ar gael yn unison.org.uk/payup2023**